# Nintedanib ar gyfer trin ffibrosis pwlmonaidd idiopathig

Ionawr 2016

## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Argymhellir nintedanib (Ofev) fel triniaeth bosibl ar gyfer pobl â ffibrosis pwlmonaidd idiopathig o dan yr amgylchiadau canlynol:

- os yw eu capasiti hanfodol gwthiedig (FVC; prawf o weithrediad eich ysgyfaint) rhwng 50% ac 80% o'r hyn a ddisgwylir ar eu cyfer
- rhoddir y gorau i'r driniaeth os bydd yr afiechyd yn gwaethygu (hynny yw, os bydd eu FVC yn gostwng 10% neu fwy o'r hyn a ddisgwylir ar eu cyfer mewn 12 mis).

### *Beth mae hyn yn ei olygu i mi?*

Os oes gennych ffibrosis pwlmonaidd idiopathig, a bod eich meddyg yn credu mai nintedanib yw'r driniaeth gywir, dylech allu cael y driniaeth ar y GIG.

Dylai nintedanib fod ar gael ar y GIG o fewn tri mis i gyhoeddi'r canllawiau.

Os nad ydych yn gymwys i gael y driniaeth a ddisgrifir uchod, dylech allu parhau i gymryd nintedanib nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ei bod yn iawn i chi roi'r gorau i'w gymryd.

## Pam bod NICE wedi dweud hyn?

Mae NICE yn edrych ar lwyddiant y triniaethau mewn perthynas â'u cost o gymharu â thriniaethau eraill sydd ar gael ar y GIG.

Argymhellwyd nintedanib oherwydd bod y buddiannau i gleifion yn cyfiawnhau ei gost.

## Y cyflwr a'r driniaeth

Os oes gennych ffibrosis pwlmonaidd, mae creithiau yn datblygu ar y meinwe y tu mewn i'ch ysgyfaint, sy'n gwaethygu dros amser. Fe'i gelwir yn 'idiopathig' am fod achos yr afiechyd yn anhysbys. Mae'r creithiau'n ei gwneud hi'n anodd i'r unigolyn anadlu, gan olygu bod gweithgareddau bob dydd yn fwy anodd.

Mae nintedanib (Ofev) yn helpu i atal yr afiechyd rhag gwaethygu.

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy.

## Ffynonellau cyngor a chymorth

- Action for Pulmonary Fibrosis, 07554 803 293
  www.actionpulmonaryfibrosis.org
- Pulmonary Fibrosis Trust, 0333 202 0991
  www.pulmonaryfibrosistrust.org

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-1800-3